# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Llansawel**

**Neuadd Llansawel**
**Llansawel**
**Caerfyrddin**
**SA19 7JH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/03/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Llansawel

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Pwyllgor Cylch Meithrin Llansawel |
| Lleoedd cofrestredig | 17 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 2 Tachwedd 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn ac maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff ac â'i gilydd. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau a chaiff eu diddordebau eu gwerthfawrogi. Mae'r plant yn rhyngweithio mewn ffordd garedig, ac maent yn mynegi brwdfrydedd ac yn mwynhau eu gweithgareddau.

Mae gan y staff bolisïau a gweithdrefnau ar waith i gadw'r plant yn ddiogel. Maent yn garedig ac yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes a chadarnhaol er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda, sy'n eu galluogi i ddiwallu anghenion unigol y plant yn effeithiol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw'r amgylchedd yn lân ac yn gartrefol. Mae'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau sydd mewn cyflwr da ac sy'n briodol i oedran y plant. Mae systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod risgiau i'r plant yn cael eu nodi a'u dileu cymaint â phosibl.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli ac yn gweithredu'r gwasanaeth yn ddigonol. Maent yn gweithio i wella'r lleoliad. Fodd bynnag, gwnaethom nodi dau faes i'w gwella mewn perthynas â'r gofynion rheoleiddiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin cydberthnasau da â'r rhieni, yr ysgol leol a'r gymuned.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus ac yn hyderus, ac yn mwynhau gwneud penderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau'r profiad cymdeithasol o eistedd gyda'i gilydd wrth y bwrdd i fwyta eu brecwast, gan benderfynu ble i eistedd a beth i'w fwyta yn hyderus. Gwrandewir ar y plant, a chânt ymatebion cynnes i'w ceisiadau. Mae'n amlwg eu bod wedi ymlacio ac yn gyfforddus i ofyn am fwy. Ar ôl amser brecwast, mae'r plant yn mwynhau gallu gwneud dewisiadau fel ble i chwarae a gyda phwy.

Mae'r plant wedi setlo ac yn gyfarwydd â'u trefn o ddydd i ddydd, sy'n rhoi ymdeimlad o sicrwydd iddynt. Maent yn hyderus i fynd at y staff i ofyn cwestiynau neu i gael cysur neu sicrwydd. Mae'r plant yn gyfforddus os bydd ymwelwyr yn bresennol. Er enghraifft, mae'r plant yn hyderus i wahodd ymwelwyr i chwarae â nhw ac i rannu adnoddau.

Mae'r plant yn rhyngweithio â'i gilydd ac yn rhyngweithio â'r staff mewn ffordd gadarnhaol. Maent yn sgwrsio'n frwdfrydig â'i gilydd wrth iddynt chwarae ochr yn ochr â'i gilydd. Er enghraifft, yn ystod amser chwarae rhydd yn y gornel gartref, mae'r plant yn defnyddio eu dychymyg i fwynhau profiadau chwarae rôl. Mae'r plant nad ydynt yn gallu siarad eto yn cyfathrebu'n llwyddiannus drwy ryngweithio mewn ffordd gadarnhaol a hapus. Mae'r plant yn gwenu pan fyddant yn cael eu canmol, er enghraifft pan fyddant yn dweud enw'r plentyn priodol wrth ddosbarthu'r matiau bwrdd wrth baratoi ar gyfer amser cinio. Maent yn dysgu sut i rannu, sut i gymryd eu tro a sut i aros pan fydd eu byrbryd neu eu cinio yn cael ei weini. Gwnaethom glywed y plant yn cyfeirio at y staff gan ddefnyddio eu henwau, gan gael ymateb cynnes ganddynt bob tro.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn ymgysylltu ac yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd pwrpasol. Gall y plant archwilio amrywiaeth dda o adnoddau, gan eu cario i ardaloedd gwahanol wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau, neu yn ystod amseroedd chwarae rhydd. Maent yn mwynhau'r rhyddid i symud o amgylch y lleoliad a gwneud penderfyniadau fel lliwio wrth y bwrdd neu chwarae â'r blociau adeiladu yn yr ardal llawr agored. Gwelsom dystiolaeth o weithgareddau diweddar fel gwneud cennin Pedr a dreigiau. Mae'r plant yn mwynhau gweithgareddau coginio, ac roeddent yn llawn cyffro wrth sôn am un o weithgareddau'r diwrnod blaenorol lle cawsant gyfle i wneud bisgedi. Yn ystod amser cylch, mae'r plant yn mwynhau canu caneuon ac yn hyderus i ymateb, gwneud ceisiadau a siarad am sut y maent yn teimlo heddiw, gydag un plentyn yn ymateb *"Hapus!".*

Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mynd i'r toiled yn annibynnol ac yn golchi eu dwylo heb gymorth. Maent yn helpu eu hunain i'w fflasgiau dŵr o hambwrdd isel. Mae'r plant yn tacluso'n annibynnol, ac yn llawn bywyd a llawenydd wrth iddynt gydweithredu a helpu ei gilydd i gwblhau'r dasg. Yn ystod amser byrbryd ac amser cinio, mae'r plant yn mwynhau cyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth ymhellach. Er enghraifft, defnyddio jygiau bach i arllwys llaeth neu ddŵr i'w cwpanau.

## Gofal a Datblygiad **Da**

Mae'r staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd i ddiwallu anghenion y plant. Maent yn dangos dealltwriaeth o bolisïau a gweithdrefnau ac yn hyderus i siarad am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r staff yn deall yr arferion ac yn eu rhoi ar waith yn gyson. Maent yn fodelau rôl da i'r plant. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu'r plant ac maent yn dilyn eu polisi a'u gweithdrefnau. Yn ystod y broses arolygu, cadarnhaodd yr arweinwyr bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu. Ers hynny, mae'r arweinwyr a'r staff wedi cyflwyno mwy o arferion da ar gyfer dogfennu pryderon. Mae'r staff yn brofiadol yn eu rolau ac yn wybodus am anghenion unigolion fel alergeddau ac anoddefiadau. Mae'r staff yn rhoi arferion hylendid cadarn ar waith ac yn gwisgo ffedogau a menig ar adegau priodol drwy gydol y dydd, er enghraifft wrth newid cewynnau. Mae'r staff yn annog y plant i olchi eu dwylo ac yn eu hatgoffa bod angen iddynt ystyried eu hylendid yn ystod amseroedd bwyd ac wrth chwarae. Mae'r staff yn cadw cofnodion cywir o ddamweiniau, digwyddiadau a meddyginiaethau, ac yn sicrhau bod yr holl lofnodion angenrheidiol wedi'u cynnwys. Mae'r staff yn paratoi prydau bwyd cartref maethlon y mae'r plant yn eu mwynhau, fel pasta â phesto, a chrymbl afal. Maent hefyd yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i fwynhau digon o ffrwythau ffres yn ystod amseroedd byrbryd.

Mae'r staff yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant ac yn ymateb i'w hanghenion. Maent yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu, ac yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes gan ddangos caredigrwydd. Mae'r staff yn sensitif i anghenion eraill ac yn modelu moesau da, fel atgoffa'r plant i ddweud "*os gwelwch yn dda*" a *"diolch."* Maent yn rhoi strategaethau cyson ar waith i reoli ymddygiad, ac yn ymyrryd yn bwyllog pan fydd plant yn anghytuno wrth ddysgu sut i rannu. Mae'r staff yn bwyllog ac yn cynnig canmoliaeth, cyfarwyddyd, ac amser i'r plant wrando a myfyrio ar eu dysgu. Maent yn atgyfnerthu'r Gymraeg mewn ffordd gadarnhaol ac yn rhoi cyfleoedd i'r plant wella eu geirfa drwy ryngweithio mewn ffordd dyner a chynnal gweithgareddau pwrpasol.

Mae'r staff yn mwynhau eu gwaith ac yn canolbwyntio ar ddiddordebau'r plant, gan ddarparu amrywiaeth o weithgareddau a phrofiadau iddynt. Maent yn hyderus ac yn frwdfrydig am eu gwaith, ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant. Gwelsom y staff yn arsylwi ar y plant yn fanwl ac yn nodi sgiliau newydd ac anghenion unigol, gan eu defnyddio i gynllunio camau nesaf eu chwarae a'u dysgu.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau a pholisïau effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch y plant. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, a hynny dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd dan do yn groesawgar ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn, gydag ardaloedd agored a mynedfeydd ac allanfeydd clir. Maent yn cynnal ymarferion tân ac yn ymarfer prosesau ar gyfer gwagio'r adeilad yn effeithiol, ac mae'r cyfarpar tân yn cael ei wasanaethu ac wedi'i leoli mewn mannau priodol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cwblhau o'r amgylchedd a'r adeilad a'u bod wedi'u dogfennu'n gywir, er enghraifft tystysgrifau ar gyfer y system wresogi. Mae cofnod o'r asesiadau risg dyddiol ac maent yn cadw asesiadau risg pwrpasol, sy'n cael eu hadolygu bob blwyddyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn arddangos amrywiaeth o ddogfennau yn ardal y dderbynfa i'r rhieni eu gweld, fel polisïau, gweithdrefnau, a gwybodaeth am y staff. Maent yn sicrhau diogelwch pawb sydd ar y safle drwy gadw cofrestrau o'r staff a'r plant, a sicrhau bod pob ymwelydd yn llofnodi wrth gyrraedd a gadael y safle.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd sy'n lân ac yn groesawgar, ac sy'n diwallu anghenion y plant drwy roi cyfleoedd chwarae da iddynt. Er enghraifft, mae ardaloedd ar gyfer chwarae rôl a chwarae archwiliol lle gall y plant ddatblygu eu sgiliau dychmygus a'u sgiliau datrys problemau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu ardaloedd sy'n briodol ar gyfer oedrannau penodol, gan gynnwys cornel gysgu a chyfleusterau newid cewynnau. Maent yn sicrhau bod y plant bob amser yn cael eu goruchwylio, ond hefyd bod yr amgylchedd yn cynnig ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored i'r plant symud o'u cwmpas yn rhydd. Ni welsom y plant yn chwarae yn yr awyr agored oherwydd y tywydd gwael. Fodd bynnag, mae'r ardal awyr agored yn cynnwys digon o adnoddau ac yn ddiogel, ac mae parc cyfagos yn cynnig mannau agored lle gellir cynnig cyfleoedd dysgu pellach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig ardal gegin ddiogel ar y safle ac mae'r lleoliad wedi'i gofrestru â'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig dodrefn o ansawdd da ac amrywiaeth o adnoddau sy'n briodol ar gyfer oedrannau'r plant. Er enghraifft, adnoddau byd bach, jig-sos, a blociau. Gwelsom y plant yn mwynhau'r ardal â charped, lle roedd cyfle iddynt archwilio amrywiaeth o lyfrau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y gweithgareddau a gynllunnir yn gysylltiedig â diddordebau a syniadau'r plant ac maent hefyd yn darparu gweithgareddau thematig sy'n hyrwyddo amrywiaeth a diwylliant.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Digonol**

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio'n galed i gynnal safonau ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol â'r rhieni, sy'n adlewyrchu'r lleoliad. Maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i weithredu'n unol â'r rheoliadau ac maent yn cydymffurfio â llawer ohonynt. Fodd bynnag, ni wnaeth y bobl sy'n rhedeg y lleoliad roi gwybod i AGC am ddigwyddiad o bwys mewn modd amserol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw polisïau a gweithdrefnau sy'n unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ac yn sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu bob blwyddyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwerthuso'r gofal yn briodol gan ddefnyddio holiaduron, ac yn cyflwyno syniadau newydd a gwelliannau. Maent yn cwblhau adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal sy'n amlinellu safbwyntiau'r rhieni, y plant a'r staff, ac yn rhannu eu cyflawniadau yn ogystal â'u gallu i wneud gwelliannau pellach.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn helpu eu staff i ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau yn y lleoliad. Mae'r staff yn brofiadol ac yn wybodus, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hapus ac yn gallu codi unrhyw faterion neu bryderon mewn ffordd agored â'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ffeiliau'r staff yn gyfredol. Fodd bynnag, er bod prosesau clir ar waith ar gyfer arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwylio pwrpasol, nid oeddent wedi cael eu cynnal yn rheolaidd ers yr ymweliad arolygu diwethaf. Cadarnhaodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bod yr arfarniadau wedi cael eu diweddaru yn dilyn yr ymweliad arolygu, a bod amserlenni ar waith ar gyfer sesiynau goruchwylio. Mae hwn felly yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr sicrhau y caiff yr ymarfer hwn ei roi ar waith yn llawn er mwyn monitro ansawdd y ddarpariaeth yn y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw amserlen o'r hyfforddiant gorfodol gofynnol, a gwnaethant gadarnhau bod hyfforddiant penodol fel hyfforddiant diogelwch bwyd wedi cael ei ddiweddaru yn dilyn yr ymweliad arolygu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gweithio'n galed i feithrin cydberthnasau cadarn yn y gymuned. Gwnaethant ddweud wrthym am ddigwyddiadau blynyddol y gall y plant, y rhieni a'r staff gymryd rhan ynddynt a chyfrannu atynt gyda'i gilydd. Er enghraifft, yr Eisteddfod leol, y sioe flynyddol, a gweithgareddau codi arian fel noson bingo a noson pitsa. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio'n agos gyda'r rhieni er mwyn sicrhau bod eu plant yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn cyngherddau a phartïon a gynhelir mewn partneriaeth â'r ysgol leol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod y prosesau ar gyfer arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwylio rheolaidd yn cael eu cynnal mewn modd amserol a'u bod yn cael eu rhoi ar waith yn gadarn er mwyn galluogi'r staff i fyfyrio ar ansawdd eu hymarfer. | Newydd |
| 31 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau y caiff gweithdrefnau cywir eu dilyn wrth roi gwybod i AGC am unrhyw ddigwyddiad o bwys sy'n ymwneud â phryderon diogelu, a phan gaiff atgyfeiriad dilynol ei gyflwyno. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 13 (Gofal Dydd) - Person Addas | Sicrhau y caiff anghenion hyfforddiant y staff eu diwallu'n rheolaidd. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 20/06/2024